Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Mewnbwn Arbenigol Cynnar ar gyfer ADY

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2026
Petitions Committee | 12 January 2026

**Cyfeirnod:** RS25/12417-5

Rhif y ddeiseb: P-06-1532

**Teitl y ddeiseb:** Mewnbwn Arbenigol Cynnar a Diwygio Mesurau Diogelu ar gyfer Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb:** Mae'r Cod ADY presennol yng Nghymru yn methu plant ag anghenion cymhleth fel Awtistiaeth, ADHD, a PDA. Heb fewnbwn arbenigol cynnar nac asesiadau diogelu, mae plant yn dechrau'r ysgol heb gymorth. Cafodd ein merch brofiad o flinder a thrawma awtistig cyn 5 oed. Mae teuluoedd yn cael eu gadael i frwydro ar eu pennau eu hunain tra bod cymorth hanfodol yn cael ei ohirio neu ei wrthod oherwydd diffygion yn y system a phrosesau aneglur.

Er iddi gael diagnosis cyn dechrau'r ysgol, ni chafodd ein merch unrhyw asesiadau risg ffurfiol, cynllun diogelu, na mewnbwn arbenigol. Cafodd pryderon a godwyd cyn y trawsnewid eu diystyru, gan arwain at chwalfa llwyr mewn addysg ac iechyd meddwl. Nid oes gan ysgolion yr arbenigedd i ddrafftio Cynlluniau Datblygu Unigol cyfreithiol gadarn, ac mae awdurdodau addysg lleol yn aml yn gwrthod camu i mewn yn ddigon cynnar. Mae teuluoedd yn cael eu gorfodi i dalu am gymorth preifat neu wynebu rhestrau aros hir wrth i'w plant ddirywio. Rydym yn galw am fewnbwn Seicoleg Addysgol gorfodol i bob plentyn ag anghenion cymhleth cyn dechrau'r ysgol, cynlluniau diogelu clir yn seiliedig ar bryderon rhieni/proffesiynol, a chyfrifoldeb cynnar awdurdodau lleol am achosion cymhleth. Rhaid i'r system Cynlluniau Datblygu Unigol fod yn rhagweithiol, nid yn adweithiol— mae ein plant yn haeddu gwell.

# 1. Y cefndir

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi disodli'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) flaenorol gyda system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd. Cyflwynwyd y system ADY newydd fesul cam dros gyfnod o bedair blynedd (rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2025).

Cynlluniwyd y system AAA flaenorol yng Nghymru i gefnogi dysgwyr rhwng oedran derbyn (4–5 oed) a blwyddyn 11 (15–16 oed), gyda rhywfaint o gymorth yn cynnwys addysg ôl-16 (er enghraifft chweched dosbarth neu goleg) hyd at 19 oed. Mae'r system ADY newydd 0-25 oed, yn cyfuno system AAA oedran ysgol sydd ar wahân gyda'r system ôl-16 ar gyfer Anawsterau Dysgu a/neu Anableddau (AAD).

## 1.1. Y Cod ADY a Swyddog Arweiniol y Blynyddoedd Cynnar

Yn unol â Deddf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru God Anghenion Dysgu Ychwanegol, a gymeradwywyd gan y Senedd ym mis Mawrth 2021. Mae'r Cod ADY yn amlinellu gofynion a chanllawiau ar gyfer ysgolion, gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, cyrff GIG ac eraill ar ddarparu'r system ADY. Mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg feithrin nas cynhelir ac a ariennir gan awdurdod lleol roi ystyriaeth i'r canllawiau perthnasol yn y Cod, yn unol â threfniadau ariannu'r awdurdod lleol.

### 1.1.1. Dyletswydd i ystyried ceisio cyngor gan seicolegydd addysg

Mae Pennod 11 o'r Cod yn rhoi manylion ar "[dd]yletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru". Mae'n cynnwys is-adran ar ddyletswydd awdurdod lleol i benderfynu a oes gan blentyn ADY, y mae paragraff 11.6 yn dweud amdano:

> *Mae'r hyn y mae rhieni yn sylwi arno ynghylch eu plentyn yn aml yn hanfodol er mwyn adnabod anghenion yn gynnar. Dylai awdurdodau lleol a darparwyr addysg feithrin nas cynhelir fod yn agored i sgyrsiau sy'n mynegi'r pryderon hyn a dylent fod yn barod i ymateb ac ystyried unrhyw wybodaeth a ddarperir.*

Mae Pennod 11 yn mynd ymlaen i ddweud:

> ***Wrth benderfynu a oes gan y plentyn ADY, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a ddylai ofyn am gyngor gan seicolegydd addysgol.***
>
> *Rhaid i'r awdurdod geisio cyngor o'r fath os yw o'r farn bod ceisio'r cyngor yn angenrheidiol i bennu-*

*(a) graddau neu natur yr ADY y gallai fod gan y plentyn, neu (b) y DDdY y mae ADY y plentyn yn galw amdani. [Ein pwyslais ni yw'r print trwm]*

Mae'r Cod hefyd yn nodi:

*Rhaid i'r cyngor a geisir ymwneud â- (a) nodweddion addysgol neu seicolegol neu nodweddion eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y plentyn (gan gynnwys anghenion tebygol y plentyn yn y dyfodol), (b) sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y plentyn, a (c) y ddarpariaeth a all fod yn briodol ar gyfer y plentyn yng ngoleuni'r nodweddion hynny, p'un ai drwy gyfrwng DDdY neu fathau eraill o ddarpariaeth ac unrhyw faterion sy'n effeithio ar gyflwyno'r ddarpariaeth honno.*

### 1.1.2. Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y Blynyddoedd Cynnar

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol fod â Swyddogion Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar sy'n gyfrifol am gydlynu trefniadau ynghylch plant sydd o dan oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt eto yn mynychu ysgol a gynhelir. Mae swyddogaethau'r awdurdod lleol y mae Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn gyfrifol am eu cydlynu, i'r graddau y maent yn ymwneud â swyddogaethau carfan y Swyddog Arweiniol ADY, yn cynnwys:

- penderfynu a oes gan blant ADY;
- llunio a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) gan gynnwys sicrhau'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a bennir yn y CDU), a darparu gwybodaeth am CDUau);
- adolygu a diwygio CDUau;
- adolygu trefniadau DDdY.

Mae pecyn cymorth, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2025 ar gyfer rhieni a gofalwyr yn disgrifio rôl Swyddog Arweiniol ADY fel a ganlyn:

*Mae swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar yn gweithio gyda rhieni, meithrinfeydd, ysgolion, gwasanaethau plant a gweithwyr iechyd proffesiynol i godi ymwybyddiaeth o ADY ac i hyrwyddo ymyrraeth gynnar pan fo angen.*

*P'un a yw'ch plentyn yn mynd i leoliad dechrau'n deg, meithrinfa breifat neu wirfoddol, cylch chwarae, neu eu bod gartref gyda chi,*

*swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar sy'n cydlynu cyfrifoldeb yr awdurdod lleol i blant o dan oedran ysgol gorfodol. Maen nhw'n gweithio gydag ysgolion a lleoliadau eraill i helpu i nodi ADY ac i sicrhau bod y cymorth cywir ar waith.*

Mae Pennod 10 o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn darparu mwy o wybodaeth ac arweiniad ar rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar.

Gallai cyhoeddiadau Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd fod yn berthnasol yn gyffredinol: Y System Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru ar gyfer meithrinfeydd a Niwroamrywiaeth yn y Blynyddoedd Cynnar.

### 1.2. Adroddiad thematig Estyn

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg, wedi cyhoeddi dau adroddiad sy'n adolygu'r gwaith o roi'r diwygiadau ADY ar waith. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Medi 2024. Mae ail gam yr adolygiad (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024) yn adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad cyntaf ac yn cyfeirio at weithrediad y Ddeddf mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig a gynhelir.

Mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar, dywedodd yr ail adroddiad y canlynol:

- Nododd y rhan fwyaf o leoliadau blynyddoedd cynnar a Swyddogion Arweiniol ADY oedd yn rhan o'r adolygiad fod gwelliannau mewn cydweithio ar draws gwasanaethau ar gyfer plant a'u teuluoedd.
- Roedd bron pob un o'r awdurdodau lleol wedi datblygu prosesau atgyfeirio ar y cyd gwell, gan sicrhau bod anghenion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi'n brydlon.
- Dywedodd llawer o Swyddogion Arweiniol ADYBC fod gallu cydweithwyr mewn gwasanaethau iechyd yn heriol, yn enwedig o ran gwneud diagnosis o niwrowahaniaeth.

## 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ym mis Hydref 2024, mewn ymateb i dystiolaeth a phryderon bod rhai rhannau o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ADY yn gymhleth ac yn aneglur, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer ADY. Fe wnaeth yr adolygiad ystyried eglurder, rhwyddineb a chysondeb y dealltwriaeth o'r fframwaith deddfwriaethol er mwyn

llywio atebion polisi a deddfwriaethol ar feysydd o’r Ddeddf, y Rheoliadau a’r Cod a ystyriwyd yn gymhleth.

Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddatganiad llafar yn y Senedd ar 14 Hydref 2025 lle nododd bum blaenoriaeth ar gyfer cam nesaf yr adolygiad:

- egluro pwy sydd ag ADY a sut y gall dysgwr ADY gael cymorth
- sicrhau cysondeb cenedlaethol
- gwella cymorth i deuluoedd
- cryfhau integreiddio aml-asiantaeth
- hyrwyddo addysg ddwyieithog a chynhwysol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd grynodeb o'r dystiolaeth a ddaeth i law yn ogystal â Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: arolwg o rieni a gofalwyr. Mewn perthynas ag ADY yn y blynyddoedd cynnar, cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol am rôl Swyddogion Arweiniol ADY  y Blynyddoedd Cynnar wrth hwyluso partneriaethau cryfach a gwell perthnasoedd â rhieni a thimau blynyddoedd cynnar mewn awdurdodau lleol. Roedd sylwadau eraill yn ymwneud ag ADY yn y blynyddoedd cynnar yn cynnwys:

- Mae yna heriau ymarferol o ran adnabod ADY a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), a chynnal CDU, ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol. Mynegwyd pryderon am yr angen i 'ragweld’ anghenion dysgu plentyn yn y dyfodol yn hytrach na darparu ar gyfer ei angen presennol.
- Nid yw'r Cod yn cydnabod bod angen cyfleoedd ar blant i gael mynediad at ymyrraeth gynnar ac i ddangos tystiolaeth o'i heffaith cyn y gellir ystyried ADY.
- Mae diffyg eglurder o ran a yw ymyriadau gan wasanaethau iechyd cyn tair oed yn golygu bod angen CDU.
- Mynegwyd dryswch ynglŷn â’r hyn sy’n gyfystyr ag 'addysg' i blant o dan oedran ysgol gorfodol a sut mae 'addysg' yn ymwneud â gofal plant.
- Dywedodd awdurdodau lleol am heriau wrth sicrhau bod lleoliadau blynyddoedd cynnar wedi’u paratoi i gefnogi plant ag ADY mewn tirwedd gymhleth o leoliadau preifat ar raddfa fach.

Wrth drafod ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad a'r camau yr oedd yn eu cymryd i wella pethau, yn y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod cynghorydd proffesiynol wedi'i recriwtio a fydd yn canolbwyntio ar wella darpariaeth ADY yn y blynyddoedd cynnar. Dywedodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn datblygu cyfres o adnoddau i gyfathrebu’r cynnig ADY yn y blynyddoedd cynnar yn well.

Yn yr ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r Ddeiseb hon, dywed Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

> *Mae Swyddogion Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar yn gweithio'n llwyddiannus gyda rhieni a lleoliadau i sicrhau cefnogaeth amserol a buddiol i blant ifanc ag ADY sy'n dod i'r amlwg neu ADY wedi’i nodi.*

Mae Lynne Neagle AS yn mynd ymlaen i ddweud:

> *Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant estyniad o £13.7 miliwn i'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Niwrowahaniaeth, a fydd yn parhau tan fis Mawrth 2027. (…)*
>
> *Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â phwysau uniongyrchol tra’n datblygu gwasanaethau integredig a arweinir gan anghenion ac adeiladu gweithlu medrus, gwydn. Mae hyn yn cynnwys cymorth i ysgolion a staff addysgu, yn ogystal â gwell cyngor a chefnogaeth i rieni a gofalwyr drwy'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol.*

# 3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd wedi bod yn craffu ar y broses o weithredu’r diwygiadau ADY (ynghyd â diwygiadau mawr eraill i’r cwricwlwm) yn ystod y Senedd hon. Gwnaeth hyn hyn drwy gyfres o 'gyfnodau monitro' a chynhaliwyd pedwar o'r rhain. Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad interim ym mis Gorffennaf 2024 a chraffodd ymhellach ar ganfyddiadau adolygiad Llywodraeth Cymru o'r diwygiadau ADY ar 23 Hydref 2025.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ystyried nifer o ddeisebau am ADY:

- P-06-1392 Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

- P-06-1341 Canllawiau hygyrch ar gyfer rhieni ac ysgolion er mwyn helpu'r broses o ddatblygu cynlluniau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol
- P-06-1342 Ariannu mwy o leoedd mewn ysgolion arbenigol a staff i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru
- P-06-1347 Adolygu polisïau anghenion dysgu ychwanegol a'i gwneud yn orfodol i hyfforddi pob athro a chynorthwyydd addysgu mewn technegau rheoleiddio YN LLAWN
- P-06-1406 Cosbau ariannol i Awdurdodau Addysg Lleol nad ydynt yn cydymffurfio â'r amserlenni ar gyfer ADY

Ystyriodd y Pwyllgor y deisebau gyda'i gilydd a nododd yr Aelodau fod yr Ysgrifennydd Cabinet eisoes yn gweithio gydag ymgyrchwyr i fynd i'r afael â phryderon. Nodwyd hefyd waith parhaus yn y maes hwn gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a fydd yn adrodd eto erbyn diwedd tymor y Senedd. Caewyd y deisebau a chynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mai 2024 ar y ddeiseb mewn perthynas â diwygio Cod anghenion dysgu ychwanegol Cymru 2021. Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd erthygl cyn y ddadl honno.

Ystyriodd y Pwyllgor hefyd P-06-1499 Rhoi terfyn ar y defnydd o'r term 'Darpariaeth Gyffredinol' fel rheswm dros wrthod ADY ym mis Mehefin 2025. Cytunodd y Pwyllgor i gadw'r ddeiseb ar agor wrth aros am ddatganiad yr Ysgrifennydd Cabinet ac, yn y cyfamser, i gyfeirio'r ddeiseb at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o ystyried ei adolygiad parhaus o'r diwygiadau ADY.

Gweler y trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 23 Hydref (paragraffau 116 – 128) ar gyfer trafod diwygiadau'r ADY mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar, yn ystod ei sesiwn graffu ar waith yr Ysgrifennydd Cabinet.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.